# Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer partneriaid sy’n cymryd rhan yn Her Ysgolion Cynradd Y Criw Mentrus a’r gweithdai dysgu proffesiynol.

Gyrfa Cymru fydd Rheolwr Data ar gyfer y data personol fyddwch yn darparu wrth gwblhau’r ffurflen gofrestru ar gyfer Her Ysgolion Cynradd Y Criw Mentrus 2023 -24. Caiff y data ei brosesu yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC)

Mae’r hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd eich data personol yn cael ei brosesu yn deg a chyfreithlon ac mewn modd tryloyw. Cymerwch eiliad i ymgyfarwyddo â’n harferion preifatrwydd os gwelwch yn dda.

Pan fyddwch yn cofrestru i gymryd rhan yn y digwyddiad fe ofynnir i chi gyflwyno data personol i sicrhau y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â’r her a rhoi gwybodaeth gyfredol i chi am y gwasanaethau sydd ar gael i’ch cynorthwyo. Byddwn yn prosesu’r data ar sail caniatâd. Fodd bynnag, unwaith y cyflwynir eich data ni fyddwn yn gallu diddymu eich data am 10 mlynedd gan ei fod yn ofynnol ar gyfer dibenion archwiliad.

Cazbah Cyf fydd yn rheoli her Y Criw Mentrus ar ran Gyrfa Cymru a phrosesu'r data ar ein rhan.

**Newidiadau i’r polisi hwn**

Gall Gyrfa Cymru wneud newidiadau i’r hysbysiad preifatrwydd hwn ar unrhyw adeg. Bydd newidiadau yn ymddangos yma ac yn dod i rym ar unwaith. Pan fydd newidiadau yn digwydd i’r polisi hwn, byddwn yn cysylltu â chi trwy gyfeiriadau ebost a gofnodwyd gennym yn eich cyfrif er mwyn eich galluogi i adolygu'r fersiwn newydd.

**Eich hawliau**

O dan ddeddfwriaeth diogelu data mae gennych hawl i:

- Gael mynediad at y data personol rydym yn prosesu amdanoch;

- Gofyn i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw ;

- Yr hawl (mewn rhai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu prosesu;

- Yr hawl ( mewn rhai amgylchiadau) i'ch data gael ei 'ddileu';

- Cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

Os ydych eisiau cysylltu â ni i drafod cwyn neu bryder sydd gennych am y ffordd y mae Gyrfa Cymru yn prosesu eich data personol, neu os ydych eisiau gwneud cais i ni ddileu eich data, gallwch ein ebostio neu ysgrifennu at ein swyddog diogelu data yn y manylion cyswllt isod:

**Cyfeiriad post:**

Swyddog Diogelu Data,

Uned 4 Churchill House

17 Churchill Way

Caerdydd

CF10 4HH

Cyfeiriad ebost:

personal.data@careerswales.gov.wales

Os oes gennych unrhyw bryderon neu gŵyn ynglŷn â sut mae Gyrfa Cymru yn ymdrin â data o dan RhDDC, y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd gwybodaeth yw:

Cyswllt Cwsmer Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffon: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: **www.ico.gov.uk**

**Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'ch Gwybodaeth chi**
Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am weld y wybodaeth a gedwir gan gyrff cyhoeddus, yn cynnwys Gyrfa Cymru. Gall y wybodaeth a roddwch i ni fod yn destun cais rhyddid gwybodaeth gan aelod arall o'r cyhoedd. Byddem yn ymgynghori â chi cyn ymateb i gais o'r fath.